

MORRIS, EDWARD (1607 - 1689), Perthi Llwydion, Cerrig-y-drudion, sir Ddinbych, bardd a phorthmon

Enw: Edward Morris
Dyddiad geni: 1607
Dyddiad marw: 1689
Priod: Sarah Morris (née Davies)
Plentyn: David Morris
Rhiant: Lowry ferch Edward
Rhiant: Morris ab Edward
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd a phorthmon
Cartref: Perthi Llwydion
Maes gweithgaredd: Natur ac Amaethyddiaeth; Barddoniaeth
Awdur: Gwenllian Jones

Mab hynaf Morris ab Edward a Lowry ferch Edward; fe'i bedyddiwyd ar y 1 Hydref 1607. Yr oedd yn briod ac yr oedd ganddo lawer o blant. Mab iddo oedd David Morris, offeiriad ac ysgolfeistr Capel Garmon (1685-1709). Bu farw yn 1689 ar daith borthmona, a chladdwyd ef yn rhywle yn Essex. Ysgrifennwyd marwnadau iddo gan bump o'i gyfoedion.

Yr oedd yn un o feirdd gorau ail hanner y 17eg ganrif. Cyfeiria ato'i hun fel bardd **Thomas Mostyn**, Gloddaeth, a byddai'n sicr o groeso gan y **Mostyniaid** a chan **Wyniaid** Bodysgallen adeg y gwyliau. Yr oedd yn feistr ar gynghanedd ac yn ddyfalwr galluog. Yr oedd yn gynefin â hanfod yr hen gymdeithas farddol, ac ysgrifennodd gywyddau yn null y cywyddwyr. Dysgodd y pedwar-mesur-ar-hugain ac ysgrifennodd awdlau arnynt; lluniodd englynion ar wahanol destunau, a chanodd gerddi ar y mesurau rhydd. Yn ei gerddi ceir cryn amrywiaeth mewn testun a mesur. Cerddi carolaidd ydyw llawer ohonynt. Y mae rhai o'i gerddi (ei garolau serch yn arbennig) yn syml, yn gynnil, ac yn dyner, rhai'n bregethwrol ac yn dysgu'r bobl sut i fyw ac yn rhoddi cynghorion, eraill yn adrodd ystori ac yn llawn ffraethineb a hiwmor. Ei hoff fesur oedd y 'tri thrawiad,' ond ni chyfyngodd ei hun i'r mesur hwnnw.

Ar gais (ac ar draul) **Margaret Fychan** o Lwydiarth cyfieithodd y *Rhybuddiwr Christnogawl*. Cyhoeddwyd y llyfr hwn bum gwaith: 1689, 1699, 1706, 1789, 1805. Cyfieithiad o lyfr John Rawlet, *The Christian Monitor* (y 12fed arg.), ydyw.

Yn *Reports on MSS. in the Welsh Language* awgrymir i Edward Morris ysgrifenu **Peniarth MS 200**, **Cardiff MS 2.137**, **Cardiff MS 1.5**, tudalen o **NLW MS 434B**, a dau gywydd o **Cardiff MS 5.30**. Y mae'n anodd bod yn bendant ynglyn â'r rhain gan na feddwn ddim y gwyddom i sicrwydd mai ysgrifen Edward Morris ydyw, ond o sylwi ar wahanol gyfeiriadau yn **Peniarth MS 200** cymhellir ni i'w derbyn fel ei eiddo, tra gorfyddir arnom amau ei gysylltiad â **Cardiff MS 1.5** Ceir marwnad iddo ar t. 364 o hwnnw.

Awdur

Gwenllian Jones

Ffynonellau

T. Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (1944)

Cymru (O.M.E.), xxxvii

Hugh Hughes, *Edward Morris, y bardd o Berthi Llwydion, plwyf Cerrig-y-drudion, Sir Ddinbych ei achau yn nghyda'r rhan fwyaf o'i weithiau barddonol* (Lerpwl 1902)

O. M. Edwards, *Gwaith Edward Morus o'r Perthi Llwydion* (Llanuwchllyn 1904)

O. Jones, *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig* (1876)

Ffoulke Owens, *Cerdd-lyfr yr hwn sydd yn cynnwys amryw garolau, a dyrifau o waith amryw awdwyr* (Rhydychen 1686)

Thomas Jones, *Carolau a Dyriau Duwiol. Neu goreuon gwaith y prydiddion goreu yng Nghymru*(Amwythig 1696)

David Jones, *Blodeu-Gerdd Cymry* (Mwythig 1759)

Cofrestrï plwyf Cerrig-y-drudion, archwiliwyd gan Mr. Evan Roberts, Llandderfel

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18730222

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Preifatrwydd a Chwciis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwydwr
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government